Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn elusen ledled y DU sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda'i gilydd. Rydym yn cynrychioli dros 300 o erddi cymunedol, ffermydd, perllannau, rhandiroedd a mannau tyfu eraill ledled Cymru. Rydym yn gweithredu'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol a ariennir gan LlC yn ogystal ag arwain dwy bartneriaeth fawr a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig: Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn defnyddio dull system bwyd gyfan i dreialu systemau bwyd lleol eraill gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel grym ar gyfer newid; ac mae Hybiau Bwyd Caffael Cynaliadwy ar gyfer Ffyniant Lleol yn dangos y gall cynhyrchwyr agroecolegol ar raddfa fach gyflenwi'r sector cyhoeddus.

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Bwyd (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i ddarparu system fwyd fwy cynaliadwy i Gymru. Gan weithio ar lawr gwlad ledled Cymru, rydym yn gweld pa mor annatod yw bwyd i bob rhan o'n bywydau – iechyd, lles economaidd, ein hamgylchedd, ynghyd â chysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol. Felly, mae darparu fframwaith sy'n cydnabod natur draws-sector bwyd ac yn adlewyrchu hyn mewn Comisiwn traws-lywodraethol sydd â'r pŵer deddfwriaethol i ddylanwadu ar gamau gweithredu "ar lawr gwlad", yn hanfodol.

Mae'r defnydd o nodau bwyd cynradd ac eilaidd i'w ganmol. Mae'r Prif Nod Bwyd a nodwyd yn dangos bod bwyd yn effeithio ar lawer o feysydd deddfwriaeth a pholisi. Mae'n anodd dadlau na ddylem, fel cenedl, fod yn anelu at y Nod hwn, gyda neu heb fecanweithiau deddfwriaethol. Ac eto, pan fydd y meysydd amrywiol yn cael eu hystyried ar wahân, heb yr ystyriaeth gydgysylltiedig a fyddai'n cael ei darparu gan Gomisiwn Bwyd, gwelwn benderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n bodloni dim ond un neu ddau o'r meysydd blaenoriaeth hyn. Er enghraifft, mae'n bosibl y caiff unedau ffermio dofednod dwys eu cymeradwyo ar hyn o bryd ar sail eu heffaith gadarnhaol ar ein cynhyrchiant economaidd a bwyd fforddiadwy, ond nid ydynt yn darparu bwyd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol nac yn gymdeithasol i bobl Cymru. Mae angen deddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi llawn a nodwyd.

Byddem yn argymell defnyddio targedau bwyd gofynnol i ganiatáu i ardaloedd lleol blaengar weithredu fel enghreifftiau i ardaloedd eraill sydd ymhellach ar ei hôl hi ar eu taith. Dylai'r Comisiwn Bwyd gael adnoddau i hwyluso cymunedau ymarfer sy'n caniatáu ymgynghori rhwng ardaloedd a chyda holl weithredwyr systemau bwyd gan gynnwys cynhyrchwyr sylfaenol, proseswyr, gweithgynhyrchwyr, lletygarwch, y sector cyhoeddus a mentrau cymunedol. Yn ddiweddar, mae Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy traws-sector presennol ledled Cymru wedi cael cymorth o £2.5m gan Dîm Dyfodol Ffyniannus LlC.

Ar hyn o bryd mae diffyg cysylltiad rhwng yr hyn sy'n digwydd yn lleol a'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol o ran gweledigaeth a strategaeth ar gyfer bwyd. Mae ardaloedd lleol goleuedig eisoes yn datblygu Cynlluniau Bwyd Lleol gan eu bod yn gallu gweld y fantais o fabwysiadu ymagwedd draws-sector at fwyd, a deall goblygiadau penderfyniadau sy'n effeithio ar y system fwyd ar wahanol gyllidebau adrannol. Er enghraifft, rhagwelir y bydd salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra yn costio mwy na £465 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru erbyn 2050, gyda chost i gymdeithas a'r economi o £2.4 biliwn (PHW). Bydd dull cydgysylltiedig ledled Cymru yn cael ei annog drwy greu fframwaith y gall y cynlluniau lleol hyn ei ddefnyddio i gyd-fynd â strategaeth system fwyd gyfannol ar gyfer Cymru gynaliadwy lewyrchus.

Head Office: The GreenHouse, Hereford Street, Bedminster, Bristol BS3 4NA
**Tel:** 0117 923 1800 **Email:** admin@farmgarden.org.uk **www.farmgarden.org.uk**

Registered in England and Wales as a Limited Company No: 2011023 / Registered Charity No: 294494 and registered as a Scottish Charity No. SC039440

Bydd angen ymgynghori'n barhaus â gweithredwyr systemau bwyd, a defnyddio arfer da presennol a Phartneriaethau Bwyd i helpu i liniaru rhwystrau rhag gweithredu ac osgoi canlyniadau anfwriadol, yn ogystal â chyfyngu ar oblygiadau ariannol y Bil. Mae llawer o ewyllys da, a gweithgarwch, eisoes yn anelu at sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru, ond yn aml mae'n brwydro yn erbyn blaenoriaethau presennol gwahanol strategaethau a pholisïau. Mae Bil Bwyd (Cymru) yn darparu'r fframwaith a fydd yn gweithredu fel y catalydd sydd ei angen i ddod â bwyd i flaen y gad a chynnig y gefnogaeth ddeddfwriaethol i weithredu drwy ein system fwyd (yr ydym yn gwybod sy'n rhan annatod o feysydd ein bywydau i gyd) a fydd wedi effaith gadarnhaol ar iechyd, cyrhaeddiad addysgol, cydlyniant cymdeithasol, datblygu economaidd ac adfer yr amgylchedd.

**Tyfu Bwyd Cymunedol**

Er nad yw manylion y Strategaeth Bwyd Cymunedol wedi'u rhannu eto dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig ym mis Mawrth 2022 y bydd rhai o agweddau'r Bil Bwyd yn cael eu hymgorffori ynddi.

Ym mis Mehefin 2022, mae papur y Gweinidog i Ymchwiliad Costau Byw Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn taflu rhywfaint o oleuni ar yr hyn y gall y strategaeth ei wneud a'r hyn na chaiff ei wneud:

*"Polisi Llywodraeth Cymru yw datblygu rhwydweithiau lleol a chlystyrau cadwyn gyflenwi lle mae gwneud hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir. Rydym eisoes yn gwneud hyn gyda chynhyrchwyr bwyd. Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn gyfle i hybu'r gwaith hwn a hwyluso gweithgaredd llawr gwlad hefyd. Mae diddordeb ac egni amlwg mewn cymunedau am brosiectau sy'n ymwneud â bwyd gyda myrdd o fentrau ledled Cymru. Yn aml, mae'r buddion yn bethau heblaw'r cynnyrch ei hun, a gallent gyfrannu at ystod o nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bwriad y llywodraeth yw cynorthwyo'r mentrau hyn ac rydym wedi bod yn rhan o sgyrsiau un i un helaeth gyda sefydliadau sy'n weithgar yn y maes hwn i ddeall heriau a chyfleoedd. Mae'n bosibl y gallai cyrff cyhoeddus ganolbwyntio mwy ar rai o'r rhwystrau strwythurol sy'n bodoli ar gyfer prosiectau cymunedol megis argaeledd tir, neu efallai y byddant yn ystyried sut y gall cyflenwyr lleol ddiwallu eu hanghenion caffael..."*

At hynny, mae memorandwm esboniadol y Bil yn nodi -

*Mae'n ymddangos bod cwmpas y Strategaeth Fwyd Gymunedol fel y'i disgrifir uchod yn gyson ag amcanion y Bil Bwyd hwn. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn cymryd lle nodau ehangach y Bil Bwyd o ran cyflawni fframwaith trosfwaol ar gyfer hyrwyddo system fwyd gyfannol a chynaliadwy yng Nghymru.*

Ac eto cynyddodd allforion bwyd o Gymru 16% rhwng 2021 a 2022, yr uchaf o bedair gwlad y DU. Er y gellir gweld hyn yn dda yn economaidd, mae'n golygu ein bod yn mewnforio mwy fyth. Amlygwyd breuder ein system fwyd yn ystod y Pandemig ac yna eto yn dilyn goresgyniad Rwsia ar yr Wcrain.



Registered in England and Wales as a Limited Company No: 2011023 / Registered Charity No: 294494 and registered as a Scottish Charity No. SC039440

Mae digwyddiadau byd-eang fel hyn yn dangos bod angen system fwyd leol a mwy cynaliadwy arnom ac un sy'n dibynnu ar gyflenwyr bwyd lleol.

Rydym yn dadlau bod gan Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned a mathau eraill o gynhyrchu bwyd cymunedol rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu cadwyni cyflenwi bwyd lleol. Mae Fferm CSA Cae Tan ar Benrhyn Gŵyr yn enghraifft wych o hyn, gan fwydo dros 100 o deuluoedd yr wythnos gyda ffrwythau a llysiau. Mae'r rhwydwaith o CSAs ledled Cymru yn tyfu'n gyflym. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn dweud y bydd y Bil *yn sefydlu'r fframwaith trosfwaol i sicrhau bod polisi ffermio a'r gadwyn gyflenwi yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag agweddau pwysig eraill fel iechyd y cyhoedd a mynd i'r afael â thlodi bwyd* . Mae angen tynnu sylw at Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned fel model ffermio pwysig a fydd yn helpu i gyflawni hyn.

Amgylchedd Rheoledig Mae memorandwm esboniadol y Bil yn amlygu amaethyddiaeth fel ateb posibl. Byddem yn dadlau bod CSA yn ddewis llawer cryfach gan ei fod yn seiliedig i raddau helaeth ar egwyddorion agroecoleg a'i fod yn ateb llawer mwy cynaliadwy, gwydn sy'n gweithio gyda natur (sofraniaeth bwyd) a newid yn yr hinsawdd, heb ddraenio ein cyflenwadau ynni gwerthfawr. Efallai bod rhinweddau CEA ond mae ei ddibyniaeth ar reoli tymheredd yn golygu nad yw ei gyflwyno ar raddfa fawr yn synhwyrol o ystyried ein hargyfyngau newid hinsawdd a chyflenwad ynni.

Rhaid annog cyrff cyhoeddus i ddarparu prosesau a pholisi cefnogol ar gyfer mentrau a gefnogir gan y gymuned. Mae sefyllfa bresennol mentrau ffermio newydd ar raddfa fach yn fygythiol. Mae rhwystrau'n amrywio o ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio anghefnogol i ddiffyg opsiynau ariannu. Mae diwylliant ymhlith llawer o gyrff cyhoeddus (nid pob un) sy'n sefydlu prosiectau a mentrau bwyd a arweinir gan y gymuned sy'n ormod o risg ac nad ydynt yn deilwng o fuddsoddiad ac adnoddau. Mae dirfawr angen cyfreithloni a pholisi cefnogol ar lefel genedlaethol i frwydro yn erbyn y diwylliant hwnnw ac ysgogi newid i'r cyfeiriad cywir.

Hoffem ychwanegu ein pryder ynghylch 'beth os na chaiff y Bil ei gefnogi'. Ers yn rhy hir bellach mae polisi bwyd wedi bod yn dameidiog ac yn ddatgymalog ac ar adegau mewn cystadleuaeth â blaenoriaethau eraill. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â hyn, ac os na chaiff ei gefnogi byddwn yn parhau.

**Ffermydd a Ferddi Cymdeithasol**
**Ionawr 2023**

Head Office: The GreenHouse, Hereford Street, Bedminster, Bristol BS3 4NA
**Tel:** 0117 923 1800 **Email:** admin@farmgarden.org.uk **www.farmgarden.org.uk**

Registered in England and Wales as a Limited Company No: 2011023 / Registered Charity No: 294494 and registered as a Scottish Charity No. SC039440